# LC1393

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Caws Ceuled (Cyfyngiad ar ei roi ar y farchnad) (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu mewn perthynas â Chymru Phenderfyniad Comisiwn 2006/694/EC sy'n gwahardd rhoi caws ceuled sydd wedi ei gynhyrchu gan Bowland Dairy Products Cyf. ar y farchnad. Fe'u gwnaed ar 17 Hydref 2006 o dan y weithdrefn weithredol a daethant i rym ar 18 Hydref 2006.

### Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Gwnaed y Rheoliadau hyn yn Saesneg yn unig. [Rheol Sefydlog 11.7(viii)].

Deellir i Benderfyniad Comisiwn mewn perthynas â Bowland Dairy Products Cyf. gael ei fabwysiadu'n swyddogol ar 13 Hydref a'i gyhoeddi yn y Cyfnodolyn Swyddogol ar 14 Hydref. Roedd yn ofynnol i'r DU ddwyn ymlaen deddfwriaeth ddomestig i weithredu'r Penderfyniad cyn gynted â phosibl ac wedi hynny penderfynodd y Gweinidog bod y Rheoliadau i'w gwneud yn Saesneg yn unig.

### Sylwadau

Dim.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**14 Tachwedd 2006**